# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2007 06 Mehefin Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher y 13eg o Fehefin 2007 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Carwyn James (Cadeirydd), Henadur Arnallt D James, y Cynghorwyr Anne Sizmur, Loreen Lewis, Annette Price, Delyth Richards, Menna Roberts, Keith Rees, June Gunter a Betsan Jones.

YMDDIHEURIADAU: Audrey Jones a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1.DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 9fed O MAI 2007.
Roedd gan y Cynghorwr Arnallt James newidiad i'w wneud i 11.3 delai ddarllen 'Llwybr troed Coedcae'. Hefyd roedd gan y Cynghorwr Loreen Lewis newidiad i wneud i 11.2 delai ddarllen 'fod y sbwriel weithiau yn cael ei gasglu yn ystod y dydd'.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Arnallt James ac eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod cofnodion cyfarfod y 9fed o Mai 2007 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Tir ger Heol Y Felin, Betws.
Dywedodd y Cadeirydd wrth y Cynghorwyr fod cyfarfod wedi cymryd lle gyda'r Cyfreithiwr ar ddydd Mercher y 16eg o Fai 2007. Roedd y Cadeirydd wedi diweddaru'r Cynghorwyr ynglyn ar bwyntiau a drafodwyd yn y cyfarfod. Hefyd dywedodd bod rhaid i'r Cyngor Cymuned sefydlu pa un o'r 4 ymddiriedolaeth wreiddiol yn y 1947 datganiad o ymddiriedolaeth sydd wedi marw diwethaf ac ar ba ddyddiad. Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn llythyr wrth Gyfreithiwr Llys Cennen yn cadarnhau'r pwyntiau a drafodwyd yn y Cyfarfod a hefyd cadarnhau tâl y Cyfreithiwr.
PENDERFYNWYD y cynghorwyr ei bod nhw'n hapus i fynd ymlaen ar fater hyn.

2.2 Ffens amgylch lle chwarae ar Heol Y Felin.
Roedd y Cynghorwr Keith Rees yn bryderus oherwydd nid oedd y ffens amgylch lle chwarae Heol Y Felin wedi cael ei atgyweiriad neu ailosod ac mae'n nawr yn adfeiliad. Mae plant yn dringo'r ffens ac mae Cynghorwr Keith Rees yn pryderu os ni fydd y ffens amgylch y lle chwarae yn cael ei atgyweirio neu ailosod yn fuan gall plentyn cael niwed difrifol.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn danfon llythyr arall i Adran y Parc o Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.3 Parc Treforys.
Adroddodd y Cynghorwr Annette Price fod y llawr ym Mharc Treforys yn stad wael.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn danfon llythyr i Adran y Parc o Gyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn a gall y llawr cael ei atgyweiriad neu ailosod.

2.4 Llwybrau Troed 3/14 & 3/16.
Roedd y Cynghorwr Arnallt James yn pryderu ynglyn â llwybrau troed 3/14 & 3/16. Mae preswylwyr wedi adrodd fod rhai mannau o'r llwybrau troed wedi rhwystro. Awgrymodd y Cynghorwr Keith Rees ac fe gytunwyd y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu ar Geidwad o Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn a gallant gerdded y llwybrau troed uchod ac adrodd yn nôl i'r

Cyngor Cymuned ar y mater hwn.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu gyda'r Ceidwad o Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.5 Siop Wilkinsons, Rhydaman.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn ymateb yw llythyr wrth yr Adran Dechnegol o Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn ar uchod. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn y broses o wneud arolwg pedestraidd/ cerbydau o'r uchod a fydd yn diweddaru'r Cyngor Cymuned yn fuan.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.6 Llif ar hyd Heol Maescware, Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn ymateb yw llythyr wrth yr Adran Dechnegol o Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn ar uchod. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cadarnhau eu bod nhw'n mynd i adeiladu rhigolydd newydd ar hyd y ffyrdd cerbydau.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.7 Ymgyrch i lanhau Sir Gaerfyrddin.
Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r Cynghorwyr am gymryd rhan yn yr ymgyrch i lanhau Sir Caerfyrddin.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.8 Llwybrau Troed ym Metws.
Dywedodd y Cynghorwr Keith Rees wrth y Cynghorwyr ei fod wedi cerdded llwybr troed Maes Y Betws ac adroddodd i'r cynghorwyr gan hynny. Penderfynwyd y Cynghorwyr fod y wâc nesaf yn cymryd lle ar ddydd Iau'r 5ed o Orffennaf yn cwrdd ger Lôn Waunddwfn ar Heol Maescware.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cynllun Datblygiad Lleol Sir Caerfyrddin.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y ddogfen yn cael ei danfon amgylch y Cynghorwyr yn eu tro.

3.2 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.
1.Rhwydwaith Cymuned Aman - Ethol Is-gadeirydd.
2.Un Llais I Gymru - Cyfarfod Ardal Caerfyrddin.
3.Cyngor Sir Caerfyrddin - Cyfeiriad newydd i'r Adran Golau Gyhoeddus.
4.Cyngor Sir Caerfyrddin - Fforwm Mynediad Lleol Sir Caerfyrddin Adroddiad Blynyddol 2005-06 (rhoddwyd i Gynghorwr Keith Rees).
5.Fforwm Gwledig Cymru - Cymorth Di-dâl am Grwpiau Cymunedol.
6.Gwasanaeth Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru - Cynllun draft Cynllunio i Leihau Risg 08/09.
7.Newyddion Gwirfoddolwyr a Chymuned.
8.Llywodraeth Cynulliad Cymru pris mantais (Rhoddwyd i Gynghorwr Menna Roberts).

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae Cyngor Cymuned y Betws wedi rhoi caniatâd i'r ceisiai canlynol:-
E/16168 - Ty gwydr i gefn 5 Parc Nant Y Felin, Betws (09/2007-08).
E/16147 - Amrywiad o ganiatâd cyflwr am gyfnewid y garej gwreiddiol mewn i ardal stydi yn 16 Golwg Y Mynydd, Betws (08/2007-08).
E/16255 - Arfaethedig cyntedd/ffordd mewn i luestfa preswylwyr i gefn Ty Coch, Heol Maescware, Betws, Rhydaman (10/2007-08)
E/16453 - Llwybr/ffordd fynediad ger Blaen Y Cwm, Plantation Fach, Betws (11/2007-08).

4.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd i'r ceisiai cynllunio canlynol:-
E/16027 - Estyniad am 6 ystafell wely i rentu yn y Scotch Pine, Betws (07/2007-08).
E/15854 - Estyniad dau lawr ger Llwch Is Awel, Betws (02/2007-08).

4.3 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwrthod rhoi caniatâd i'r cais cynllunio canlynol:-
E/15725 - Ty ger Tan Y Berllan, Heol Maes y Berllan, Betws (30/2006-07).

4.4 E/10446 - Adeiladu 16 Twrban Gwynt ar Fynydd y Betws (12/2005-06).
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymweld â safle o'r uchod ar y 19eg o fis Mehefin. Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur delai cynrychiolydd o Gyngor Cymuned y Betws fod yn bresennol yn cyfarfod y safle. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin gan ddweud fod cynrychiolydd o Gyngor Cymuned y Betws am fod yn bresennol yn cyfarfod y safle o hefyd gofyn a yw bosib fod y Cynghorwr Cymuned yn gallu siarad yn y cyfarfod yn dilyn cyfarfod y safle.

5. CYFRIFON.
5.1 Taliadau.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn cadarnhad wrth yr Archwiliwr Mewnol Lyn Llewellyn fod cyfrifon Cyngor Cymuned y Betws wedi cael ei Archwilio am y flwyddyn yn gorffen ar y 31ain o Fawrth 2007 ac nid oedd unrhyw bwyntiau yw

codi. Fe lofnodwyd y Cadeirydd y cyfriflyfr. Esboniodd y Clerc fod yr Archwiliad Allanol wedi cae ei gosod am y 10fed o fis Awst. Fe lofnodwyd y Cadeirydd y ffurflen flynyddol.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

1. Lyn Llewellyn (tâl am yr Archwiliad Mewnol) £55.00
2. Cyngor Sir Caerfyrddin (tal 1af am waith ym mharc Betws) £2000.00
3. Menter Aman (papur copi) £12.17
4. Cyflog a Lwfans y Clerc £835.84
5. Treth Incwm y Clerc £177.78
6. Blodau a Chompost £38.00

CYFANSWM £3118.79
CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

5.2 Incwm A dderbyniwyd.
Dim.

5.3 Cyflog y Clerc.
Roedd y Clerc wedi cadarnhau fod ei chyflog am y flwyddyn 2007/2008 yn mynd i fod yn £3400 plws lwfans o £470.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod hyn wedi cael ei cytûn yn Cyfarfod y Precept ym mis Ionawr 2007 ble gafodd y gyllideb eu trafod a gytûn.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 12 troseddau yw nodi yn ardal y Betws yn ystod mis Mai a hyd yn hyn mae 2 trosedd wedi ei ddatrys.

Adroddodd y Cynghorwr Annette Price roedd hi'n pryderu dros ben gyda phlant yn gyrru ei beiciau 4x4, oherwydd bod hyn yn beryglus dros ben gan ystyried pa mor gyflym maen nhw'n teithio. Cadarnhaodd PC Jones fydd yn edrych i mewn i'r mater hyn.

Roedd y Cynghorwr Anne Sizmur yn pryderu oherwydd mae tacsis yn parcio ar hyn Heol Pentwyn. Dywedodd PC Jones mae hawl gyda'r tacsis parcio ar hyd Heol Pentwyn, fel bod

nhw ddim yn achosi rhwystrau.

Adroddodd PC Kevin Jones nid yw'r Heddlu yn gallu mynd ymlaen a phrynu dyfais datgelu cyflymder am Ddyffryn Aman, oherwydd mae'r ddyfais roeddynt am brynu wedi derbyn adroddiadau gwael ynglyn â'u dibynadwyedd. Hefyd dywedodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn e bost wrth Tony Ward ar y mater hwn, ac fe ddarllenwyd i'r Cynghorwyr.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr.

Rhoddwyd y Cadeirydd ddiolch i PC Kevin Jones am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Roedd y Cynghorwr Sir John D Evans wedi ymddiheuro oherwydd nid oedd ef yn gallu fod yn bresennol yn y cyfarfod misol.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Prosiect Parc Betws.
Roedd y Cynghorwyr wedi trafod diwrnod agored Parc Betws yn fanwl iawn.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Cymhorthfa'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr nid oedd unrhyw breswylwyr wedi bod yn bresennol yn cymhortha'r Cyngor Cymuned cyn y cyfarfod misol y Cyngor Cymuned ym mis Mehefin.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

9.2 Basgedu Hongian.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn toriad o bapur newydd wrth Brian Lewis oedd yn dweud fod Cyngor Cymuned Leol wedi rhoi basgedu hongian amgylch eu pentref. Trafodwyd rhoi basgedu hongian amgylch Betws yn fanwl gan y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr nid oedd ganddynt ddigon o arian ar hyn o bryd i roi basgedu hongian amgylch Betws.

9.3 Swydd Wag Cynghorwr.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi gwybod iddi nid maen nhw wedi derbyn ceisiadau wrth deg etholwr fel gall etholiad cymryd lle ynglyn ar swydd wag, mae rhaid i'r Cyngor Cymuned nawr cyfethol aelod newydd.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn gwneud hysbysiadau cyfethol fydd yn cael eu rhoi i fyny amgylch Betws a fydd hyn yn cael ei drafod yn cyfarfod y Cyngor Cymuned mis nesaf.

9.4 Llwybr Troed Maes Y Betws.
Adroddodd y Cynghorwr Keith Rees fod llawer iawn o fes cwn ar hyd Llwybr Troed Maes Y Betws. Roedd yn bryderus am les preswylwyr lleol sydd yn cerdded y llwybr hwn. Awgrymwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn a gall biniau ffowlio cwn cael ei rhoi ar hyd y llwybr hwn. Cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

Gorffennodd y Cyfarfod am 9.10 yp